

JONES, THEOPHILUS (1759 - 1812), hanesydd sir Frycheiniog

Enw: Theophilus Jones
Dyddiad geni: 1759
Dyddiad marw: 1812
Priod: Mary Jones (née Price)
Rhiant: Hugh Jones
Rhiant: Elinor Jones (née Evans)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: hanesydd sir Frycheiniog
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Aberhonddu 18 Hydref 1759 (nid 1758), yn fab i Hugh Jones, a oedd ar y pryd yn gurad Llanfaes, Aberhonddu, ac a fu wedyn yn ficer Llangamarch (1763-8) a Llywel (1768-99) ac yn brebendari yng Ngholeg Crist, Aberhonddu; ei fam oedd Elinor (a fu farw 1786), ferch [Theophilus Evans](#); bwriodd Theophilus Jones lawer o'i fachgendod yn Llwyn Einion, Llangamarch, cartref ei daid, a chafodd ddogfennau hanesyddol ar ei ôl. Addysgwyd ef yn ysgol Coleg Crist, dan [David Griffith](#); yr oedd yno ar yr un pryd ag [Edward Davies](#), ('y Celtig Ddafis'), a bu'r ddau yn gyfeillion mynwesol byth wedyn. Bu am gryn amser yn gyfreithiwr, ond penodwyd ef yn ddirprwy-gofrestrydd i'r archddiaconiaeth, ac yna ymddeolodd o'i waith fel cyfreithiwr ac ymroes i ymchwil hanesyddol. Priododd (â Mary Price, merch Rhys Price o'i wraig gyntaf, Mary, o Borth-y-rhyd, rhwng Llanwrda a Chil-y-cwm), ac aeth i fyw i hen ddeiriedad - saif y tŷ heddiw; ynddo y bu farw yr esgob George Bull. Gellid meddwl mai tua 1800, ar ôl marw ei dad (1799), y penderfynodd sgrifennu hanes ei sir. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf o'r *History of Brecknockshire* yn 1805, a'r ail (a gyflwynwyd i [Edward Davies](#)) yn 1809. Ym mlynnyddoedd olaf ei fywyd, yr oedd Jones yn gyfeillgar iawn â [Thomas Price](#) ('Carnhuanawc'). Bu farw 15 Ionawr 1812, a chladdwyd yn Llangamarch. Bu farw ei weddw ar 22 Gorffennaf 1828, ac yn y llan ym Myddfai y claddwyd hi.

Medrai Gymraeg; gwnaeth gyfieithiad (anghyhoedd) o'r *Bardd Cwsc*, a bu 'Llyfr Aneirin' am gyfnod yn ei feddiant - fe'i cafodd gan [Thomas Bacon](#), a '[Carnhuanawc](#)' a'i cafodd wedi ei farwolaeth. Bwriadai sgrifennu hanes sir Faesyfed, a chyfrannodd amryw bapurau i'r *Cambrian Register* ac i *Archaeologia*. Cyhoeddwyd cyfrol goffa, *Theophilus Jones, Historian*, yn 1905 gan [Edwin Davies](#), sy'n cynnwys yr ysgrifau hyn, ei lythyrau at [Edward Davies](#) ac at [Walter Davies](#) ('Gwallter Mechain'), a byr-gofiant gan [Gwenllian E. F. Morgan](#).

Yr *History of Brecknockshire*, hyd heddiw, yw'r gorau o ddigon o'n llyfrau ar hanes siroedd Cymru; gwaith chwilotwr dyfal a manwl. Y mae rhagfarnau'r awdur yn rhy amlwg i beri trafferth - ei wrth-Babyddiaeth, ei wrth-Ymneilltuaeth, ei wrth-Fethodistiaeth (eto noder yr ysgrif ar [Howel Harris](#), 121-5 o'r gyfrol goffa uchod, nad yw'n gwbl angharedig), a'r elfen ryddieithol ynddo a'i dallai i ragoriaethau [Henry Vaughan](#). Cyhoeddwyd 2il arg., gyda rhai chwanegiadau, gan [Edwin Davies](#)

yn 1898, yn un gyfrol. Yn 1909-11 dug [Davies](#) allan 3ydd arg., a gwplawyd gan gymdeithas hanes y sir yn 1930; cynnwys hwn chwanegiadau helaeth o gasgliad [arglwydd cyntaf Glanusk](#) (gweler o dan '[Bailey](#)'). Yn yr arg. pedair cyfrol gwych hwn, y mae'r llyfr yn gwbl anhepgor i'r sawl a fyn astudio hanes Brycheiniog.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Darllen Pellach

Theophilus Jones, Edwin Davies, *Theophilus Jones, F.S.A. historian his life, letters & literary remains* (Aberhonddu 1905)

Erthygl Wicipedia: [Theophilus Jones](#)

Gweithiau

Theophilus Jones, *History of the County of Brecknock*, Vol I, 1805

Theophilus Jones, *History of the County of Brecknock* Vol II Part I, 1809

Theophilus Jones, *History of the County of Brecknock* Vol II Part II, 1809

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [68716436](#)

Wikidata: [Q7782307](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

